

Mae Crefft yn Cyfri

Ym mis Gorffennaf 2018 byddwn yn datlu 10 mlynedd ers i ni ail-lansio Canolfan Grefft Rhuthun.



'Blas ar Grefft'

Rhaglen ar gyfer pobl 60 oed+

YN DOD YN FUANI!

Ystod eang o weithgareddau ymarferol o wneud crefftau gyda gwahanol wneuthurwyr, gyda help paned flasu o de neu goffi (a bisgedi!).

Eleni ein rhaglen *Mae Crefft yn Cyfri* fydd yn ysbrydoli'r sesiynau i ddathlu 10 mlynedd ers ail-lansio Canolfan Grefft Rhuthun. Arch-wilio'r deg defnydd traddodiadol/themâu cyntaf sy'n gysylltiedig â phenblwyddi – o bapur drwy gotwm a chopr i dun.

Mae'r rhain yn sesiynau sy'n oed-gyfeillgar ac nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol yn y celfyddydau – dim ond parodrwydd i gymryd rhan! Cewch gyfarfod â phobl newydd a dysgu sgiliau newydd. Ymunwch â ni am un sesiwn neu gymaint o sesiynau ag y mynnwch chi.

Dewch i ymuno â ni am awr neu ddwy ar brynhawn Gwener (1.00pm – 3.00pm) drwy gydol mis Mai a Mehefin.

£12.50 y sesiwn (darperir yr holl ddefnyddiau) neu archebwch y cwrs cyfan (5 sesiwn i gyd) â disgwnt am £50.00

DEWISLEN NEWYDD AR GYFER 2018:

• 11 Mai

Gwneuthurwr: Mandy Coates

Helyg: 'Llafrywyn a Phennau Hadau â Dail'. Dysgu dulliau'r ffigwr wyth a phlethu 'caseg fedi' i greu eich addurniadau gardd eich hun.

• 18 Mai

Gwneuthurwr: Hannah Coates

Copr: Gwneud darn o emwaith o'ch dewis chi a/neu banel addurniadol o ddefnyddiau wedi'u hailgylchu.

• 25 Mai

Gwneuthurwr: Andy Hazell

Tun: Trowch eich hen dun bisgedi'n rhywbeth sy'n llai defnyddiol ond yn llawer tlysach gan ddefnyddio pleiars, snips a mymryn bach o ddychymyg – byddwch yn greadigol gydag ail-gylchu!

• 8 Mehefin

Gwneuthurwr: Kate Barlow

Cotwm: Rhagarweiniad i frodwaith gwaith criwl. Mae'r dull traddodiadol hwn yn fil o flynyddoedd oed o leiaf, byddwch yn defnyddio dyrnaid o bwythau a ddefnyddir yn gyffredin, yn cynnwys pwyth cadwyn, clymau Ffrengig, pwyth conyn a delltwaith. Mae'r gweithdy hwn yn berffaith os ydi brodwaith llaw yn newydd i chi neu os ydych chi fymryn yn rhydlyd.

• 15 Mehefin

Gwneuthurwr: Kate Jordan

Ffrwythau a Blodau: Trefniant blodeuol wedi'i ysbrydoli gan natur yn defnyddio dulliau arbenigwyr ar osod blodau.

Lleodedd cyfyngedig ar gael, bwcwch ymlaen llaw i osgoi siom.
Ffôn: 01824 704774.



CANOLFAN GREFFT RHUTHUN
2008 - 2018 DATHLU DEGAWD
O GELFYDDYD GYMHWYSOL